Cwm Taf Morgannwg
Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol | Regional Partnership Board



MEYSYDD BLAENORIAETH GOFALWYR DI-DÂL:

# Gwybodaeth, Cyngor ac Arweiniad

## Sicrhau bod gofalwyr di-dâl yn gallu cael gafael ar y wybodaeth sydd ei hangen arnynt.

Rydyn ni eisiau sicrhau bod gofalwyr di-dâl yn ymwybodol o'r gwasanaethau sydd ar gael iddynt, fel y gallan nhw gael mynediad at y cymorth sydd ei angen arnynt.

Trwy'r gwaith hwn, ein gobaith yw:

- Helpu gofalwyr a'r bobl y maen nhw'n gofalu amdanynt i gysylltu â gwasanaethau a chael apwyntiadau mewn modd amserol.
- Gwella dealltwriaeth o'r rôl ofalu, fel bod cymorth ar gael i ofalwyr cyn diagnosis, yn yr amgylchedd sydd fwyaf addas.
- Gwella cydlyniad gwasanaethau cefnogi gofalwyr, gydag anghenion gofalwyr yn ganolog.
- Gwella'r gydnabyddiaeth a roddir i ofalwyr fel aelodau allweddol o'r tîm gofal.
- Moderneiddio'r seibiant a gynigir ar draws y rhanbarth, gan ddarparu mwy o hyblygrwydd.
- Gwella canlyniadau addysgol pobl ifanc sydd â rôl ofalu.
- Cynyddu cyfleoedd i ofalwyr a'r rhai y maen nhw'n gofalu amdanynt i wneud gweithgareddau.






### BETH SY'N BWYSIG I OFALWYR DI-DÂL?

Hoffai gofalwyr di-dâl dderbyn gwybodaeth hawdd ei chael am y cymorth a'r cyngor sydd ar gael iddynt.

Hoffen nhw hefyd ddeall sut y gallan nhw ddefnyddio eu llais i ddylanwadu ar newidiadau cadarnhaol, gan gynnwys helpu pobl i gydnabod pan fyddan nhw'n ofalwyr di-dâl a'r gwerth y maen nhw'n ei roi i gymdeithas.

### DYWEDODD POBL

"Ro'n i'n gofalu am Mam am ddeng mlynedd cyn iddo fy nharo, dwi'n ofalwr."

### BETH FYDDWN NI'N EI WNEUD GYDA'N GILYDD:

- Ymestyn y cymorth sydd ar gael yn yr ysbyty i ofalwyr.
- Sicrhau bod anghenion gofalwyr yn cael eu nodi fel rhan o gynllunio rhyddhau o'r ysbyty.

**Parhad trosodd.**

Cwm Taf Morgannwg
Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol | Regional Partnership Board



# Gwybodaeth, Cyngor ac Arweiniad (Parhad)

**"Mae bod yn ofalwr yn swydd llawn amser... mae yna rwystredigaeth gyson [fel comisiynwyr] oherwydd dydyn ni ddim yn gallu gwneud digon i gefnogi gofalwyr."**



## BETH FYDDWN NI'N EI WNEUD GYDA'N GILYDD (PARHAD):

- Gwella ymwybyddiaeth gweithwyr proffesiynol ehangach er mwyn cynyddu amlygu pobl a all fod â rôl ofalu.
- Defnyddio arian seibiannau byr newydd i ddiwallu anghenion gofalwyr ar draws y rhanbarth.
- Cynyddu ymwybyddiaeth o hawliau gofalwyr gan gynnwys asesiadau gofalwyr.
- Ymgysylltu â gofalwyr i gynllunio gwasanaethau a fyddai'n cefnogi unigrwydd ac ynysrwydd yn uniongyrchol (gan weithio ar y cyd â Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus)
- Gwella gwybodaeth, cyngor ac eiriolaeth – mae angen cymorth o ansawdd da ar ofalwyr i gefnogi eu rôl ofalu, yn enwedig mewn amgylcheddau ysgol a gwaith.
- Sicrhau bod Asesiadau Gofalwyr yn cael eu defnyddio'n ehangach a'u cynnig i ofalwyr pan fo angen.




## PA WAHANIAETH FYDD HYN YN EI WNEUD?

- Bydd gofalwyr yn cael eu hadnabod yn gynt ac yn gallu cael mynediad at gefnogaeth briodol.
- Bydd cyfleoedd seibiant byr ychwanegol ar gael i ofalwyr ar draws y rhanbarth.
- Bydd gofalwyr a'r rhai sy'n derbyn gofal yn sylweddoli faint o fudd a fwriedir gan y gwasanaethau y maen nhw'n ei dderbyn.

### DYWEDODD POBL

**Yn aml dyw gofalwyr ddim yn gweld eu hunain fel gofalwr, maen nhw'n gweld eu hunain fel gwraig, gŵr neu blentyn. Mae angen i ni fod yn well am eu hamlygu a'u cefnogi."**